

**ADRAN ECONOMI A CHYMUNED - GWASANAETH CYMUNEDAU IACH**  
**CAIS AM ADNODDAU AR GYFER: CYFLAWNI ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015-2018**  
**CYFLWYNWYD GAN: IAN JONES, UWCH REOLWR**

### Cefndir

1. Fel rhan strategaeth ariannol y Cyngor rhwng 2015/2016 ac 2017/2018 mae gofyn ar yr Adran gyflawni £1,053k o arbedion effeithlonrwydd (eithrio cynlluniau allanoli) o fewn y Gwasanaeth Cymunedau Iach.
2. Mae'r Gwasanaeth wedi paratoi cynlluniau ar gyfer cwrdd gyda'r targed yma sydd bellach wedi eu cyflwyno i'r cyfundrefnau corfforaethol a gwleidyddol.
3. Un o'r cynlluniau hynny yw cynnig HAM4 (Rhedeg Cyfleusterau Hamdden yn fwy effeithiol). Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy gyfuniad o'r canlynol:
  - Gwneud addasiadau i'r cynnig presennol er mwyn denu incwm newydd,
  - Lleihau gwariant wrth adolygu trefniadau rheoli adnoddau a,
  - Trawsnewid y ffordd mae defnyddwyr y gwasanaeth yn cysylltu a chael mynediad i'r gwasanaeth.
4. Bwriad y cais yma ydi gofyn am arian cyfalaf er mwyn cyflawni un rhan o'r dryddedd elfen sef :-
  - Trawsnewid y ffordd mae defnyddwyr yn cael mynediad i'r cyfleusterau wrth uwchraddio Systemau Technoleg y Gwasanaeth.

### Yr Angen

5. Mae'r system TG presennol mewn lle ers y flwyddyn 2000 ac er bod rhaglen gyfyngedig o uwchraddio wedi cymryd lle yn ystod y cyfnod ers hynny nid yw'r system yn cwrdd gyda disgwyliadau'r Gwasanaeth o safbwynt darparu rhyngwyneb effeithiol gyda'r defnyddwyr erbyn hyn.
6. Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi £17k o arian refeniw eleni er mwyn gwella perfformiad y system wrth allu i) archifo gwybodaeth hanesyddol ii) rhesymoli'r nifer o haenau adrodd a iii) gwaredu gwybodaeth anghywir/anghyflawn o'r system. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau hynny yn gyfyngedig i wella perfformiad y system yn unig.
7. Mae gorddibyniaeth amlwg yn y system bresennol ar rhyngwynebau traddodiadol e.e. mae angen i pob cais am logiad o ganolfan gael ei wneud unai ar y ffôn neu drwy ymweliad personol gyda'r ganolfan.
8. Ar sail gwaith ymchwil diweddar, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod bod o leiaf 33% o'r defnyddwyr yn debygol iawn o ddefnyddio ffurf electroneg o gyfathrebu / gysylltu gyda'r canolfannau. Golygai hynny bod modd rhyddhau arbedion effeithlonrwydd wrth leihau'r adnoddau cyswllt cwsmer presennol a chyfeirio'r defnyddwyr i ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Byddai'r dechnoleg hwnnw yn cynnwys:
  - Peiriannau hunan wasanaeth mewn derbynfydd
  - Safle We sy'n cynnig ymaelodi, llogi a thalu dros y we
  - Porth ar y we ble fyddai rhieni yn gallu gweld cynnydd eu plant mewn gwersi a dewis pa amser o'r dydd byddai'n hwylus iddynt fynychu'r gwersi hynny i'r dyfodol.
9. Rydym yn ymwybodol bod anghenion a disgwyliadau ein defnyddwyr yn wahanol ac felly, mae angen bod yn ofalus wrth rhagdybio effaith unrhyw newid ar y defnyddwyr hynny. Felly, bydd y rhaglen

mewnosod yn cynnwys cyfnod o addysgu ac hyfforddi'r defnyddwyr sy'n debygol o ddefnyddio'r dechnoleg ar sut bydd modd ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

10. Er mwyn cadarnhau'r asesiad cost/budd priodol mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau dadansoddiad manwl o'r sefyllfa bresennol sy'n cynnwys asesiad o'r buddiannau o drawsnewid y ddarpariaeth bresennol. Mae'r dadansoddiad hwnnw wedi dangos bod modd gwireddu arbedion referniw parhaol o £60k yn flynyddol o 2017/2018 ymlaen pe gellid sicrhau buddsoddiad cyfalaf o £152k i gychwyn. (mae copi o'r dadansoddiad hwnnw ar gael os y dymunwch)

11. Gofynnir felly, i'r Cabinet am fuddsoddiad o £152k ar sail yr achos busnes a gyflwynir yma.

**Cost: £152,000**